
# Ditectifs y Deinosoriaid



amgueddfa cymru
national museum wales

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

# Ffosilau Deinosoriaid

Math o ymlusgiad yw deinosor. Esblygodd deinosoriaid tua 250 miliwn o flynyddoedd yn ôl a marw allan 66 miliwn o flynyddoedd yn ôl.

Rydyn ni'n gwybod bod deinosoriaid yn arfer bodoli oherwydd ein bod ni'n canfod ffosilau.

Ffosil yw gweddillion anifail neu blanhigyn sydd wedi ei gadw mewn craig am filiynau o flynyddoedd.

Palaeontolegwyr yw'r gwyddonwyr sy'n darganfod ac astudio ffosilau.





Cadwch lygad am y symbol hwn – mae'r wybodaeth i'w weld yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd!

# Dannedd

**Mae dannedd yn gallu dangos i ni beth fyddai'r deinosor yn ei fwyta.**



Dant *T. rex*


Roedd dannedd miniog gan gigyswyr. Roedd rhai yn grwm fel dagr, neu ag ochrau danheddog.



Dant *Iguanodon*

Roedd gan lysyswyr ddannedd bach, gwastad i falu planhigion.

# Sgerbwd Deinosor



# Crafangau

Roedd llysyswyr yn amddiffyn eu hunain rhag ysglyfaethwyr gyda'u crafangau.

Roedd gan gigyswyr grafangau miniog i ddal eu prae.



Crafanc bawd *Iguanodon*.



Crafanc Hadrosaur



Crafanc *Velociraptor*



Crafanc *T. rex*

Llysyswyr = bwyta planhigion.

Cigyswyr = bwyta cig.


# Byd y Deinosoriaid

Roedd planhigion ac anifeiliaid eraill yn byw yn oes y deinosoriaid.

Gallwn ni ddefnyddio eu ffosilau i adeiladu darlun o’r byd yn oes y deinosoriaid.



Amonit



Gwas y Neidr



Côn

# Deinosor Cymreig Newydd

Cafodd deinosor mwyaf newydd yr Amgueddfa ei ganfod yn 2014 ar draeth ger Penarth.

Dyma’r deinosor Jwrasig hynaf i gael ei ganfod yn y DU. Cafodd ei enwi yn *Dracoraptor hanigani*. Draig-leidr yw ystyr *Dracoraptor*.




Dyma esgyrn llaw *Dracoraptor*.

Mae’r clogwyni ar y traeth yn beryglus.
Peidiwch mynd yno i chwilio am ffosilau!


# Deinosor Cymreig Newydd

Mae model maint llawn o *Dracoraptor* i'w weld yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.



# Enwau Deinosoriaid

Bydd gwyddonwyr yn aml yn disgrifio golwg deinosor wrth ei enwi.



*Tyrannosaurus rex* yw ‘teyrn ymlusgiad frenin’

# Mathemateg Deinosoriaid




Gall olion traed deinosoriaid ddangos i wyddonwyr sut oedd yr anifeiliaid yn symud.

Mae ôl troed *Tyrannosaurus rex* tua **100cm o hyd**. Mae eich ôl troed chi tua **20cm o hyd**!

Faint o'ch traed chi fyddai'n gallu ffitio ar hyd ôl troed T*yrannosaurus rex*? Defnyddiwch y gyfrifiannell.

# Gweithdai



Mae dau weithdy deinosoriaid yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.


**Synau'r Deinosoriaid** ar gyfer dosbarthiadau Cyfnod Sylfaen

**Ditectifs Deinosoriaid** ar gyfer dosbarthiadau CA2

Mae rhagor o fanylion ar ein gwefan - https://amgueddfa.cymru/caerdydd/addysg

Rhaid i ysgolion a grwpiau archebu ymlaen llaw.

Ffoniwch (029) 2057 3240 i gadw lle (9am - 4pm).




**Arwyn yr Anturiwr - Deinosor Yn Y Goedwig**

Arwyn yw'r deinosor trymaf yn y goedwig, ond mae arno ofn – ofn popeth!

Bydd y llyfr gwreiddiol hwn a'i ddarluniau unigryw yn hudo plant ac oedolion fel eu gilydd.

https://amgueddfa.cymru/siop/item/1525/Arwyn-yr-Anturiwr/